

Taryn Nixon



Role

Ymddiriedolwr a Chadeirydd Pwyllgor Lloegr, Llundain a De Lloegr

Mae Taryn Nixon yn archeolegydd sydd â chefnidir o arweinyddiaeth yn sector yr amgylchedd hanesyddol.

Rhwng 1997 a 2016, hi oedd Prif Weithredwr Amgueddfa Archaeoleg Llundain (MOLA). Mae MOLA yn elusen addysgol, BBaCh a Sefydliad Ymchwil Annibynnol (IRO) sy'n darparu gwasanaethau masnachol a budd cyhoeddus yng nghyd-destun cynllunio, adeiladu a datblygu. Roedd hi'n Ymddiriedolwr Bwrdd MOLA o 2017–2019.

Ar hyn o bryd, mae Taryn yn gynghorydd ac ymgynghorydd rheoli treftadaeth annibynnol, gan helpu sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth fel grym er llesiant. Mae hi hefyd yn Un o Ymddiriedolwyr National Trails UK, yn hyrwyddo'r llwybrau pellter hir sy'n rhan o'r teulu tirweddau gwarchoddedig, ac yn

cael eu gweinyddu gan Natural England a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae ei hyfforddiant archeolegol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ei chariad at dirwedd a'i pherthynas ddeinamig â phobl a'i thaith. Mae wedi gwasanaethu fel aelod, ymddiriedolwr a chadeirydd ar gyfer llawer o sefydliadau, gan gynnwys: Darlithydd Anrhydeddus yn Athrofa Archaeoleg Coleg Prifysgol Llundain, cyn Gadeirydd y corff proffesiynol, Sefydliad Siartredig Archeolegwyr (CifA), ac Is-gadeirydd Ffederasiwn y Rheolwyr a'r Cyflogwyr Archaeolegol (FAME).

Mae Taryn yn angerddol am b?er treftadaeth ddiwylliannol a naturiol i gysylltu pobl a lle. Ac, o ran rhoi ymdeimlad o le wrth wraidd datblygu cynaliadwy, adfywio, adfer ac adfer. Mae wedi cyhoeddi'n eang ar gyfraniad cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd ymgysylltu â threftadaeth, gan gynnwys canllawiau diweddar gan y diwydiant adeiladu.

Mae Taryn wedi byw a gweithio yn Hong Kong, Swydd Gaerloyw, Llundain a Dyfnaint. Ar hyn o bryd mae'n byw gyda'i theulu ar gyrion Dartmoor, o fewn y Parc Cenedlaethol.